# Rhybudd preifatrwydd – Rhestr Cynrychiolaeth Prydain Fawr ar Fwyd Anifeiliaid

Gwybodaeth am ein polisi preifatrwydd mewn perthynas â Rhestr Cynrychiolaeth Prydain Fawr ar gyfer Bwyd Anifeiliaid, pam mae angen y data arnom ni, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud â'r data a'ch hawliau.

## Pam mae angen yr wybodaeth hon arnom ni?

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni. Mae'r wybodaeth bersonol yr ydym ni'n ei chadw amdanoch chi yn cynnwys enw a chyfeiriad eich busnes. Mae'r ASB yn cael yr wybodaeth hon gan eich awdurdod lleol.

Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth hon at ddibenion cyflawni ein rhwymedigaethau statudol o dan reoliadau yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir (retained EU law). Mae'n ofynnol i'r manylion hyn gael eu cyhoeddi. Ni fyddwn ni'n casglu unrhyw ddata personol gennych chi nad ydym ni ei angen.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Dim ond cyhyd ag y bo hynny'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau hyn y byddwn ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y cedwir yr wybodaeth hon cyhyd â bod busnes wedi'i gofrestru a/neu ei gymeradwyo fel Cynrychiolydd Prydain Fawr. Cedwir rhestrau hanesyddol o fusnesau cofrestredig a/neu rai wedi'u cymeradwyo am 6 blynedd.

## Sut a ble rydym ni'n storio'ch data a gyda phwy y gallwn ni ei rannu

Byddwn ni'n cadw gwybodaeth bersonol tan i chi ddatdanysgrifio o'r gwasanaeth hwn neu tan yr adeg y daw'r manylion cyswllt yr ydych chi wedi'u darparu yn annilys. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i adran Sut a ble rydym ni'n storio'ch data a gyda phwy y gallwn ei rannu ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Trosglwyddiadau rhyngwladol

I gael rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau rhyngwladol, ewch i adran Trosglwyddiadau Rhyngwladol ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (UE)

I gael rhagor o wybodaeth am Hysbysiad Preifatrwydd Dinasyddion yr UE, ewch i adran dinasyddion yr UE ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Eich hawliau

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau, ewch i adran Eich hawliau ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, eich gwybodaeth bersonol neu unrhyw gwestiynau ar ein defnydd o'r wybodaeth, anfonwch e-bost at ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB, sef Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod.